

**PWYLLGOR CYLLID – CYLCH GORCWHYL**  
**Mabwysiadwyd 20.03.19**

1. Mae cyfansoddiad y Pwyllgor Cyllid yn golygu ei fod yn monitro holl incwm a gwariant y Cyngor Cymuned.
2. Prif amcan y Pwyllgor ydyw cynorthwyo y Cyngor Cymuned i gadw golwg dros reolaeth ariannol addas, risgiau ariannol, strategaeth reoli, awdit mewnol ac allanol, materion polisi a thrafodion ariannol. Mae hyn yn cynnwys paratoi y gyllideb flynyddol a ddirprwywyd iddo gan y Cyngor, adolygu a gwneud argymhellion ar drafodion ariannol sylweddol a'r gyfradd praesept blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn.
3. Nid oes gan y Pwyllgor Cyllid rym i wneud penderfyniadau ond yn hytrach i gyflwyno argymhellion ar gyfer sêl bendith Cyngor Cymuned Y Fali.
4. Mae Rheoliadau Ariannol Cyngor Cymuned Y Fali yn llywodraethu sut y caiff holl drafodion ariannol y Cyngor eu cyflawni.
5. Y Clerc/Swyddog Ariannol â Chyfrifoldeb sy'n gyfrifol am weinyddiaeth briodol o faterion ariannol y Cyngor Cymuned ac yn gyfrifol am gadw unrhyw ddogfennau neu gofnodion fel bo'r angen i sicrhau bod dyletswyddau'r Cyngor yn cael eu cyflawni yn effeithiol.
6. Cyfyngir yr aelodaeth i bum Cynghorydd Cymuned sy'n gwasanaethau ar y pryd. Bydd Cadeirydd ac Is Gadeirydd presennol y Cyngor Cymuned yn aelodau awtomatig o'r Pwyllgor. Gall pob aelod presennol arall o'r Cyngor ofyn am gael eu hapwyntio ar y Pwyllgor.
7. Bydd angen cworwm o dri ar gyfer cynnal gwaith y Pwyllgor, a Chadeirydd y Pwyllgor fydd un ohonynt neu os na fydd yn gallu bod yn bresennol, person a enwebwyd ganddo ef/hi. Cynhelir cyfarfodydd gan amlaf yn chwarterol a chyn cyfarfod llawn o'r cyngor.
8. Clerc y Cyngor fydd Ysgrifennydd y Pwyllgor. Bydd y Clerc yn cofnodi gweithrediadau a phenderfyniadau pob cyfarfod o'r Pwyllgor gan gynnwys cofnodi enwau pawb a oedd yn bresennol neu wrth law.
9. Bydd cofnodion cyfarfodydd o'r Pwyllgor yn cael eu dosbarthu yn amserol i bob aelod o'r Pwyllgor a chânt eu hystyried a'u cymeradwyo yn y cyfarfod llawn nesaf o'r Cyngor Cymuned.
10. Cyfyngir y materion i'w trafod yn y cyfarfod i'r rhai sydd wedi eu cynnwys ar agenda'r cyfarfod. Dosberthir yr agenda ymlaen llaw i holl aelodau'r Pwyllgor trwy e-bost, gan roi tri diwrnod clir o rybudd a chan ddatgan lleoliad, amser a dyddiad y cyfarfod.
11. Bydd aelodaeth y Pwyllgor Cyllid yn cael ei adolygu trwy bleidlais yng Nghyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned y Fali ynghyd â'r Cylch Gorchwyl hwn.
12. Yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyllid yn dilyn Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Cyngor Cymuned y Fali, bydd y Pwyllgor Cyllid yn ethol Cadeirydd cyn ymdrin gydag unrhyw beth arall.